# Atebion i Gwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 15 Chwefror 2010

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb

3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai

3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Dreftadaeth

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb*

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Yn dilyn WAQ55538, WAQ55539, WAQ55540, WAQ55541, WAQ55543, WAQ55542, WAQ55544 a WAQ55545, a wnaiff y Gweinidog ddynodi ffynhonnell y cyllid ar gyfer y Grwpiau Gorchwyl a Gorffen a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. (WAQ55605)

***Rhoddwyd ateb ar 2 Mawrth 2010***

Ni chesglir y wybodaeth y gwnaethoch ofyn amdani.

**William Graham (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei hystyriaethau ar gyfer cynyddu'r gyllideb ar gyfer y portffolio Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol. (WAQ55607)

***Rhoddwyd ateb ar 2 Mawrth 2010***

Defnyddiwyd dull strategol wrth lunio cyllideb 2010-11 er mwyn diogelu a chynnal y gwasanaethau cyhoeddus allweddol y mae pobl yn dibynnu arnynt, a cheisio cyfrannu at yr arbedion sydd eu hangen drwy ddefnyddio pob maes portffolio.
Yn y cyd-destun strategol hwn, cafodd dyraniad cyllideb 2010-11 i bortffolio Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol ei ddatblygu mewn ymgynghoriad â'r Gweinidog. Ac eithrio trafodion rhyngadrannol, mae cyllideb refeniw Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol ar gyfer 2010-11 wedi codi £97.0 miliwn o gymharu â 2009-10, sef cynnydd o tua 2.2%. Mae hyn yn cynnwys dyraniad strategol ychwanegol o £34 miliwn i'r Grant Cynnal Refeniw, gan sicrhau cynnydd o 2.1% ar sail tebyg am debyg ar gyfer 2010-11.

**William Graham (Dwyrain De Cymru)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y paratoadau ar gyfer cynnal y Cyfrifiad yng Nghymru. (WAQ55608)

***Rhoddwyd ateb ar 2 Mawrth 2010***

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithio'n agos gyda'r Swyddfa Ystadegau Gwladol i ddatblygu Cyfrifiad 2011 ac fe'i cynrychiolir ar bob un o lefelau llywodraethu'r cyfrifiad.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ymgynghorwyd â defnyddwyr ynglŷn â'r pynciau ar ffurflen y cyfrifiad ac roedd hyn yn cynnwys ymgynghori â defnyddwyr yng Nghymru. Yng Nghymru, croesewir yn arbennig y cwestiwn ar hunaniaeth genedlaethol a gaiff ei gynnwys yn y cyfrifiad, a fydd yn caniatáu i bobl fynegi mai Cymry ydynt.

Ym mis Hydref 2009, cafodd ymarfer y cyfrifiad ei gynnal gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol mewn tair ardal gan gynnwys Ynys Môn. Bydd adborth yr ymarfer hwn yn awr yn helpu i lunio'r gweithdrefnau maes terfynol a ddefnyddir yn 2011. Caiff y gwaith o wirio cyfeiriadau ei wneud yn fuan, er mwyn sicrhau rhestr cyfeiriadau o safon ar gyfer cyfrifiad 2011. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi bod yn gweithio gyda rhanddeiliaid yng Nghymru hefyd, gan gynnwys Bwrdd yr Iaith Gymraeg, i sicrhau bod y trefniadau maes yn addas i Gymru. Caiff pawb yng Nghymru gyfle i lenwi holiadur y cyfrifiad yn Gymraeg neu Saesneg. Bydd holl ddeunydd y cyfrifiad, gan gynnwys cyhoeddusrwydd, y wefan a'r ganolfan gyswllt, hefyd ar gael yn Gymraeg neu Saesneg.

Daeth Gorchymyn y Cyfrifiad i rym ym mis Rhagfyr 2009. Mae'n nodi dyddiad y cyfrifiad, pwy a ddylai gwblhau'r cyfrifiad a'r pynciau a gwmpesir. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithio ar Reoliadau'r cyfrifiad ar hyn o bryd, sef y ddeddfwriaeth sy'n nodi trefniadau gweithdrefnol ac ymarferol

ar gyfer y Cyfrifiad yng Nghymru. Bydd Gweinidogion Cymru yn llunio'r rhain am y tro cyntaf yn ddiweddarach eleni.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai*

**Jeff Cuthbert (Caerffili):** Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i ddynodi Castell Rhiw'r Perrai a'i dir cyfagos yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. (WAQ55604)

***Rhoddwyd ateb ar 5 Mawrth 2010***

O ran dynodiad posibl fel Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, mae hwn yn fater i Gyngor Cefn Gwlad Cymru gan mai nhw sydd â'r cyfrifoldeb statudol yng Nghymru ar gyfer dynodiadau o'r fath, yn hytrach na Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Ond yn y cyd-destun hwn mae'n werth nodi bod y castell a'r ardal o'i amgylch eisoes wedi'u gwarchod gan nifer o ddynodiadau/dulliau. Deallaf fod y castell yn Heneb Gofrestredig, mae'r ardd ar y gofrestr o Barciau a Gerddi Hanesyddol, ac mae'r castell a'r ardal o'i amgylch wedi'u dynodi fel ardal gadwraeth. Yn ogystal mae nythfeydd hysbys o Rywogaethau a Warchodir gan Ewrop yn bresennol ar y safle ac wedi'u gwarchod o dan Reoliadau Cynefinoedd (1994).

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Dreftadaeth*

**William Graham (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu sut y bydd diwylliant a threftadaeth Cymru yn cael eu hyrwyddo yn ystod 2010. (WAQ55609)

***Rhoddwyd ateb ar 2 Mawrth 2010***

Mae dogfen Cymru'n Un yn amlinellu ein nod i gefnogi a hyrwyddo digwyddiadau ac atyniadau sy'n ymwneud a diwylliant a threftadaeth Gymreig ledled Cymru a thramor.
Yn ogystal â hyn, mae fy natganiad strategol ar yr amgylchedd hanesyddol yn mynd ati i ddwysau'r flaenoriaeth y mae dogfen Cymru'n Un yn ei roi i'r gwaith o greu ymdeimlad o berchnogaeth a balchder yn nhreftadaeth Cymru.  Bydd mwy o fentrau eleni i annog y cyhoedd i fynd i safleoedd treftadaeth a'u gwerthfawrogi, gan greu profiad sy'n atyniadol, yn werthfawr ac yn berthnasol i bobl leol ac ymwelwyr. Bydd hyn yn cynnwys cynllun dehongli ledled Cymru, y cyntaf yn Ewrop, a phrosiectau ar safleoedd sy'n gysylltiedig â thywysogion Cymru o dan Fenter Treftadaeth Ddiwylliannol Cymru.

Hefyd yn 2010 bydd Cyngor y Celfyddydau yn adolygu ei bolisi ariannu er mwyn nodi ac ystyried modelau ariannu amgen a sicrhau'r budd mwyaf i'r celfyddydau a sefydliadau'r celfyddydau yng Nghymru.

Bydd National Theatre Wales yn bwrw ymlaen ag ystod o gynyrchiadau newydd yn ei flwyddyn lawn gyntaf, gan lwyfannu rhai mewn lleoliadau confensiynol, ac eraill mewn lleoedd anghyffredin.

Fel y gwyddoch, cynhelir yr Eisteddfod Genedlaethol eleni ym Mlaenau Gwent a Blaenau'r Cymoedd - yn unol â Rhaglen Blaenau'r Cymoedd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ddigon addas.  Bydd yr Eisteddfod Genedlaethol yn derbyn £493,000 gan Lywodraeth Cynulliad Cymru drwy Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn ystod blwyddyn ariannol 2010-11.

Mae mynediad am ddim i Amgueddfa Cymru yn bolisi hynod o boblogaidd a llwyddiannus o hyd.  Mae Cymru'n Un yn ymrwymo i barhau â'r polisi hwn.

Byddaf hefyd yn lansio Casgliad y Bobl yr haf hwn. Mae hwn yn ffordd arloesol o gasglu, dehongli, dosbarthu a thrafod treftadaeth ddiwylliannol Cymru ar-lein. Bydd gwybodaeth am gyfoeth ac amrywiaeth ein treftadaeth ar gael i bawb, y rheini sy'n byw yng Nghymru, ymwelwyr a darpar ymwelwyr, ym mhedwar ban byd.

Yn ogystal â hynny, mae grŵp llywio Twristiaeth Diwylliannol wrthi'n datblygu fy Nghynllun Gweithredu Twristiaeth Diwylliannol. Mae gwaith y grŵp yn dylanwadu ar y portffolio Treftadaeth ehangach a roddir mwy o bwyslais ar gydweithio rhwng cyrff diwylliannol gyda'r nod o sicrhau mwy o fudd i'r cyhoedd.

Yn gynharach eleni, lansiais gynllun gweithredu pum mlynedd (2010-15) newydd ar gyfer gweithgarwch corfforol, sef Creu Cymru Egnïol sydd â chysylltiad agos â strategaeth iechyd y cyhoedd. Bydd strategaeth ar gyfer perfformio a rhagoriaeth ym maes chwaraeon yn 2010 hefyd.

Ac yn olaf, wrth gwrs, cynhelir cystadleuaeth Cwpan Ryder yng Nghasnewydd eleni gan roi cyfle unigryw i Gymru ddangos ei hun i'r byd wrth i gynulleidfa deledu anferth ein gwylio. Nid yw Croeso Cymru yn gyfrifol am drefnu'r digwyddiad, y Daith Ewropeaidd sy'n gwneud hynny, ond bydd cyfrifoldeb arno i fanteisio ar y cyhoeddusrwydd byd-eang y caiff ei greu.

**William Graham (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu sut y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cefnogi adfer Llong Canoloesol Casnewydd. (WAQ55610)

***Rhoddwyd ateb ar 2 Mawrth 2010***

Eleni a'r llynedd, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru - drwy Cadw - wedi cynorthwyo Cyngor Dinas Casnewydd drwy grant gwerth £23,500. Rhoddwyd y grant hwn i baratoi asesiad ymchwil llawn yn dilyn y gloddfa o'r holl ddata amgylcheddol ac arteffactau a ganfuwyd wrth gloddio'r Llong yng Nghasnewydd ac o'r cofnodion hanesyddol cyfoes. Disgwylir i'r gwaith hwn yn arwain at lunio adroddiad llawn ar yr agweddau hyn o'r Llong yng Nghasnewydd yn 2010/11. Nid yw'r grant hwn yn cwmpasu'r gwaith o gofnodi, cadwraeth a modelu'r Llong yng Nghasnewydd, sy'n cael ei gynnal gan Gyngor Dinas Casnewydd ar hyn o bryd gyda chymorth Cyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau.
Roeddwn yn falch o'r cyfle i ymweld â'r Llong yng Nghasnewydd fis Hydref diwethaf a chyfarfod ag aelodau'r tîm archeolegol a chynrychiolwyr y cyngor. Gofynnodd y cynghorwyr a allwn gefnogi ceisiadau am gymorth i brynu peiriant sychrewi er mwyn diogelu pren y llong cyn ei hail-adeiladu, a thuag at gynllunio ac adeiladu amgueddfa bwrpasol newydd i arddangos y llong arbennig hon. Fodd bynnag hyd yma, ni dderbyniwyd unrhyw ohebiaeth ar y materion hyn gen i na'm swyddogion.